Pennod 3

Marcio Poteli

Yr ymgyrch

Marcio poteli a chaniau o alcohol a werthir gan siopau trwyddedig fel y gellir olrhain alcohol sy'n cael ei atafaelu gan yfwyr dan oed i lle cafodd ei werthu'n wreiddiol a chymryd camau yn erbyn y gwerthwr neu'r asiant a wnaeth ei gyflenwi.

Amcanion

1. Lleihau nifer y cwynion sy'n gysylltiedig â phobl ifanc yn yfed dan oed a wneir i'r heddlu ac awdurdodau lleol.
2. Adnabod prif ffynhonnell(au) (h.y. pa siopau trwyddedig) yr alcohol sy'n cael ei yfed mewn mannau cyhoeddus gan bobl ifanc.
3. Meithrin cyswllt gyda ac addysgu deiliaid siopau trwyddedig lleol a'u staff am eu cyfrifoldebau cyfreithiol a'u haddysgu am yr effaith y mae gwerthu alcohol i rai dan oed neu i bobl anghyfrifol yn ei gael ar y gymuned leol.
4. Adnabod rhai sy'n gweithredu'n gyson fel asiantau drwy brynu alcohol ar ran rhai dan 18 oed a chymryd camau yn eu herbyn.
5. Adnabod deiliaid trwyddedau sydd efallai'n gwerthu alcohol i rai dan oed, p'un ai'n wybod neu'n ddiarwybod iddynt.
6. Addysgu pobl ifanc am beryglon goryfed alcohol.
7. Addysgu'r cyhoedd am y gosb o brynu / cyflenwi alcohol i rai dan oed.

Ystyriaethau cychwynnol

Mae llawer iawn o waith i'w wneud cyn i'r cynllun hwn ddechrau. Mae'r gwaith hwn yn anhepgor os yw'r cynllun i lwyddo.

Y rheidrwydd cyntaf yw annog rhanddeiliaid i gymryd rhan. Fel y soniwyd ym Mhennod 2, y rhanddeiliaid hyn yw'r heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol, eiddo a siopau trwyddedig, Safonau Masnach a staff trwyddedu, a wardeniaid cyngor lle cyflogir hwynt. Lle mae canolfannau siopa wedi eu perchenogi a'u rhedeg gan sefydliadau masnachol sy'n cyflogi staff diogelwch i'w rhedeg, dylid eu gwahodd hwythau hefyd i ymuno â'r cynllun. Awgrymir y dylid cynnal cyfarfod cychwynnol â'r rhanddeiliaid i egluro'r cynllun a hyrwyddo ei fanteision, a hefyd ag aelodau o Bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor i'w hysbysu am y cynllun a'i fanteision disgwyliedig ac i ennill eu cefnogaeth iddo. Dylid dod i gytundeb â'r rhanddeiliaid ynghylch y mesurau llwyddiant fel bod dealltwriaeth gyffredin a mewnbwn gan y partïon i gyd ac fel bod pawb yn cyfrannu at sicrhau llwyddiant y cynllun unwaith y daw i rym.

Mae dwy elfen i'r cynllun –ceisio lleihau gwerthu alcohol i yfwyr dan oed o eiddo sydd â thrwydded i werthu alcohol oddi ar y safle, a cheisio lleihau faint o alcohol sy'n cael ei ddarparu i yfwyr dan oed gan asiantau – trydydd partïon sydd efallai'n prynu alcohol i yfwyr dan oed ar eu cais. Bwriedir ymdrin â'r ddwy elfen hon ar yr un pryd ond gan ddefnyddio gwahanol ddulliau, gyda'r ail elfen yn dibynnu ar addysgu rhywfaint ar y cyhoedd.

Mae'n bwysig bod pobl yn sicr ynghylch gwahanol gamau'r cynllun a'r canlyniadau os yw trosedd yn cael ei ganfod. Felly, dylai'r rhanddeiliaid a'r partneriaid fod yn ymwybodol o ba bolisi gorfodi sydd i'w fabwysiadu lle mae troseddu'n cael ei ganfod. Yr asiantaethau gorfodi (yr heddlu, Safonau Masnach a'r adrannau perthnasol o'r awdurdod lleol) a ddylai benderfynu pa gamau i'w cymryd lle mae troseddu'n cael ei ganfod, e.e. gwerthu alcohol i rai dan oed, cyflenwi alcohol i rai dan oed gan asiantau a thrydydd partïon, a sicrhau bod ganddynt ddatganiad clir ac eglur i'r perwyl hwnnw i sicrhau bod y partïon i gyd yn deall y sefyllfa os yw trosedd yn cael ei ganfod. Gallai'r opsiynau gynnwys adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu ynghylch a ellir ystyried rhywun i fod yn berson Ffit a Phriodol i ddal trwydded os cawsant eu dal yn gwerthu alcohol i rai dan oed, gan arwain at wahardd eu trwydded am gyfnod i'w benderfynu gan y Pwyllgor Trwyddedu, neu rybuddion, Rhybuddion Syml neu erlyn y person sy'n prynu alcohol ar ran yfwyr dan oed ayb, ac o dan ba amgylchiadau y dewisir y gwahanol opsiynau.

Marcio Poteli - Siopau

Dylid defnyddio gwybodaeth leol i benderfynu ym mha ardaloedd y dylid rhedeg y cynllun ar sail beilot neu gychwynnol. Bydd gwybodaeth gan yr heddlu lleol yn dangos lle mae yfwyr dan oed yn hel at ei gilydd, neu ba siop y maen nhw'n ei thargedu i brynu alcohol, a hefyd yn tynnu sylw at ardaloedd sy'n agos at neu'n gysylltiedig â gwerthu alcohol oddi ar y safle lle mae mân droseddu'n broblem. Dylid pwyso ar ddeiliaid siopau trwyddedig yn yr ardaloedd hyn i ymuno â'r cynllun. Mae aelodaeth o'r cynllun yn wirfoddol, ond yn ardal heddlu Strathclyde lle dechreuodd y cynllun, hysbyswyd deiliaid siopau nad oedd yn rhaid iddynt ymuno â'r cynllun ond y byddai cymryd rhan yn y cynllun yn wybodaeth a fyddai'n cael ei darparu i Fwrdd Trwyddedu'r ardal. Ar sail debyg, dylid gofyn i Bwyllgorau Trwyddedu bwyso ar ddeiliaid siopau trwyddedig i ymuno â'r cynllun fel arwydd o ymddygiad cyfrifol. Mae testun y llythyr a anfonwyd at ddeiliaid siopau trwyddedig yn gofyn iddynt ymuno â'r cynllun, fel a ddefnyddiwyd yn ardal Strathclyde, yn ymddangos yn Atodiad 1 a gellir ei addasu i'w ddefnyddio'n lleol. Bydd deiliaid siopau trwyddedig yn gwybod pa ddiodydd alcohol sydd fwyaf poblogaidd gydag yfwyr dan oed, a byddant efallai eisiau ychwanegu at neu ddiwygio'r rhestr a awgrymir yn y llythyr i adlewyrchu amgylchiadau lleol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai seidar cryf, lager cryf ac alcopops yw'r diodydd alcohol sydd fwyaf tebygol o gael eu dewis gan yfwyr dan oed ac,

felly, awgrymir y dylai'r rhain fod yn rhai cyffredin gan bob eiddo sy'n ymuno â'r cynllun.

Unwaith y penderfynir ym mha ardal neu ardaloedd y dylid rhedeg y cynllun, dylid rhoi cod unigryw i bob siop drwyddedig yn yr ardal honno. Dylai fod yn fyr ac yn ddigon gwahanol i godau siopau cyfagos yn y cyffiniau fel na ellir cam-adnabod siop drwy gamddarllen y codau. Dylid dosbarthu rhestr o'r holl godau eiddo i bob partner yn y cynllun a fydd yn cyfrannu at adnabod alcohol a atafaelwyd; fodd bynnag, dylid cyfyngu mynediad at y codau ar y rhestr hon i atal honiadau bod siopau'n codio eu poteli neu ganiau gyda chodau siopau eraill. Awgrymir hefyd y dylid cael cytundeb ynghylch lle i farcio poteli a chaniau, fel bod yr holl siopau sy'n cyfrannu yn marcio yn yr un lle, er mwyn gallu eu hadnabod yn haws os atafaelir hwynt. Mae'r cynllun yn yr Alban yn hyrwyddo marcio ar waelod y poteli a'r caniau, ac yn sicr ddim ar y labeli oherwydd gellir eu tynnu ar ôl eu prynu. Dylid rhoi pinnau marcio uwchfioled i bob siop yn y cynllun ar gyfer marcio'r poteli a'r caniau dan sylw a gofyn iddynt farcio'r holl stoc yn y grwpiau diod a ddewisir â'r cod unigryw. Mae hyn yn cynnwys yr holl stoc ar y silffoedd ac yna'r holl stoc wrth i'r silffoedd gael eu hailstocio. Yn ôl tystiolaeth gan siopau yn yr Alban a ymunodd â'r cynllun, awgrymir nad yw hyn yn broses lafurus ac nad yw'n cymryd gormod o amser y staff. Mae cwestiynau cyffredin am y cynllun yn cynnwys:

A ydyw'n cymryd llawer o amser staff i farcio poteli a chaniau?

Y dystiolaeth o'r Alban yw nad yw'n cymryd llawer o amser staff. Mae'r staff yn y siop dan sylw'n dewis y mathau o alcohol sy'n boblogaidd gyda phobl ifanc, fel arfer lager a seidar cryf ac alcopops, a dim ond y rhain sy'n cael eu marcio. Maen nhw'n cael eu marcio wrth iddynt fynd ar y silffoedd wrth ailstocio fel bod y gwaith yn aflonyddu cyn lleied â phosibl ar y busnes.

A ydyw'n effeithio ar werthiannau?

Y dystiolaeth o'r Alban yw nad ydyw. Lle mae staff yn wyliadwrus ynghylch gwerthu i rai dan oed, ni ddylai hyn fod yn broblem beth bynnag. Hefyd, lle mae yfwyr dan oed yn ymwybodol bod gwerthu alcohol iddyn nhw, ac i rai sydd efallai'n gweithredu fel asiantau ar eu rhan, yn cael ei reoli'n llym, byddant efallai'n dewis gadael yr ardal a bydd hyn, yn ei dro, yn gwneud yr ardal o gwmpas y siop yn llai brawychus i rai sydd efallai eisiau ymweld â hi ac yn eu cymell i fynd yno.

A ydyw'r staff yn cael eu plagio gan yfwyr dan oed sydd eisiau prynu alcohol?

Eto, mae'r dystiolaeth o'r Alban yn awgrymu nad ydynt. Mae yfwyr dan oed fel arfer yn ymwybodol bod eu hymddygiad yn torri'r gyfraith ac unwaith y byddant yn dod i wybod y gwrthodir gwerthu iddynt ac y byddant efallai'n cael eu recordio'n gofyn am wasanaeth lle mae gan y siop gamerâu teledu cylch cyfyng ayb, maen nhw'n tueddu i beidio â dod yn ôl yno.

Dylid atgyfnerthu'r ffaith bod angen cofnodi achosion lle gwrthodwyd gwerthu alcohol i rai sy'n ymddangos i fod o dan 18 oed, oherwydd bydd lleihad yn nifer yr ymdrechion i brynu alcohol yn arwydd o lwyddiant y cynllun.

Prynu alcohol gan asiantau / trydydd partïon

Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw rhai aelodau o'r cyhoedd yn ymwybodol ei bod yn drosedd prynu alcohol a'i gyflenwi i yfwyr dan oed, a phan fydd rhywun dan oed yn dod atynt y tu allan i siop lle mae alcohol yn cael ei werthu y byddant yn ei brynu ar eu rhan naill ai heb sylweddoli eu bod yn troseddu drwy wneud hynny, neu'n gwybod hynny ond yn credu na chymerir camau yn eu herbyn am wneud. Mae'n bwysig rhoi sylw i hyn, oherwydd mae'n bosibl y bydd rhai dan oed, gan wybod y bydd siopau'n fwy gwyliadwrus o werthu alcohol yn uniongyrchol iddynt, yn gofyn yn amlach neu'n rhoi mwy o bwysau ar drydydd partïon i brynu alcohol ar eu rhan.

Mae'n amhosibl cyrraedd yr holl unigolion sydd yn y grŵp targed o drydydd partïon / asiantau yn uniongyrchol oherwydd mae'r grŵp yn amrywio ac wedi'i hap-leoli i raddau helaeth. Awgrymir felly, mewn unrhyw gyhoeddusrwydd ymlaen llaw ar gyfer y Cynllun Marcio Poteli, y dylai'r partneriaid dynnu sylw at y ffaith ei bod yn drosedd cyflenwi alcohol i yfwyr dan oed a phwysleisio y gellir dwyn achos yn erbyn rhai sy'n gwneud hynny. Yn Strathclyde, dyluniwyd posteri i ddangos lluniau o bobl ifanc yn dioddef o effeithiau alcohol ac yn dweud bod cyflenwi alcohol iddynt yn drosedd gyda dirwy o £1000. Dangosir enghraifft o un o'r posteri hyn yn Atodiad 2. Os yw'r partneriaid yn y cynllun yn penderfynu dyfeisio cyhoeddusrwydd tebyg, dylid ei gynhyrchu a'i ddosbarthu i'r holl siopau yn y cynllun ac i unrhyw eiddo arall lle mae'r partneriaid yn teimlo y byddai'n cael ei weld gan rai sydd efallai'n ystyried gweithredu fel asiantau neu y gellid eu targedu gan bobl ifanc yn gofyn iddynt brynu alcohol ar eu rhan, cyn dechrau'r cynllun.

Gorfodi'r cynllun

Rhaid i staff a fydd yn cyfrannu at y cynllun fod yn gyfarwydd â'r hyn y bydd angen iddynt ei wneud. Bydd yr holl staff gorfodi – yr heddlu, Swyddogion Cymorth Cymunedol, staff trwyddedu Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd – yn cael pinnau uwchfioled a chylchoedd allweddi i fathau eraill o synwyryddion, fel y medrant gadarnhau o ba siop y prynwyd unrhyw botel neu gan sy'n cael ei atafaelu ganddynt. Dylid hefyd rhoi rhestr iddynt o'r codau sy'n adnabod pob siop fel y medrant gysylltu'r botel neu'r can â nhw'n briodol.

Lle mae rhai dan oed yn cael eu dal ym meddiant alcohol, dylid ei atafaelu a'i olrhain i lle cafodd ei werthu. Yn yr Alban, yn ogystal â hyn, anfonwyd llythyr at rieni neu warcheidwaid y rhai dan oed yn rhoi gwybod iddynt fod alcohol wedi ei ddarganfod ym meddiant yr yfwr dan oed ac yn cynnig cymorth lle bo'i angen arnynt. Dangosir copi o'r llythyr a ddefnyddiwyd yn Atodiad 3. Os oedd yr unigolyn a oedd yn yfed dan oed rhwng 16-18 oed, roeddent hwythau hefyd yn derbyn llythyr yn disgrifio canlyniadau eu hymddygiad, a dangosir testun y llythyr

hwn yn Atodiad 4. Os bwriedir defnyddio llythyrau o'r fath, dylid paratoi'r testun safonol a'i ddosbarthu i'r holl swyddogion gorfodi ar gyfer ei ddefnyddio cyn dechrau'r cynllun.

Dylid atafaelu alcohol sy'n cael ei ddarganfod i fod ym meddiant rhai dan oed. Efallai y bydd partneriaid eisiau cadw cofnod o nifer yr achosion atafaelu er mwyn eu defnyddio fel dangosydd perfformiad.

Mae'n debyg y bydd y penderfyniad ynghylch sut i ddelio â throseddwyr wedi cael ei ystyried yn helaeth gan swyddogion gorfodi, ond dylai pawb sy'n rhan o orfodi'r cynllun fod yn ymwybodol o ba bwyntiau i gytuno arnynt wrth ddelio â throseddwyr er mwyn sicrhau cysondeb ymateb.

Cyhoeddusrwydd cyn dechrau'r cynllun

Dylai'r partneriaid yn y cynllun fabwysiadu barn ynghylch a ydynt eisiau rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun cyn ei weithredu neu beidio. Bydd y penderfyniad yn dibynnu ar a ydyw'r partneriaid eisiau tynnu sylw at fodolaeth y cynllun a fyddai, yn ei dro, yn gwneud yfwyr dan oed yn effro i'r ffaith y bydd mwy o wyliadwriaeth mewn siopau trwyddedig ac y gellir olrhain poteli a chaniau i'w man gwerthu, a thynnu sylw asiantau posibl, p'un ai'n ymwybodol neu beidio o ganlyniadau gwneud hynny, at y ffaith eu bod yn troseddu. Gallai tynnu sylw at y cynllun gael effaith ragataliol o ran y bydd yfwyr dan oed efallai'n dod i wybod y bydd mwy o graffu ar eu hymddygiad ac efallai'n newid eu ffyrdd, gan gyfrannu at lwyddiant y cynllun. Neu, gallai'r partneriaid ystyried rhedeg y cynllun am gyfnod heb dynnu sylw ato, er mwyn casglu data ar nifer y troseddwyr sy'n cael eu dal, a nifer yr atafaeliadau ayb, cyn rhoi cyhoeddusrwydd i'r cynllun. Yna, ar ôl hyn a hyn o amser, byddai'r cynllun yn derbyn cyhoeddusrwydd a gellid yna gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng y data ar sail cynt a chwedyn. Penderfyniad lleol fydd hyn, ond dylid cytuno arno ymlaen llaw cyn gweithredu'r cynllun.
Y dangosyddion perfformiad a ddefnyddiwyd gyda chynllun Strathclyde oedd:

1. Nifer y bobl a ryportiwyd am gyflawni troseddau
2. Faint o alcohol a gafodd ei atafaelu a'i waredu
3. Nifer y llythyrau Hysbysu Rhieni a anfonwyd (Atodiad 3)

Dangosodd y ffigurau o Ayrshire rhwng Medi a Rhagfyr 2006, sef cyfnod y peilot, fod 171 o bobl ifanc o dan 18 oed wedi eu dal yn yfed dan oed, 149 o'r rhain yn fechgyn a 22 yn ferched. Roedd 630 litr o alcohol wedi cael ei atafaelu.

Awgrymir y gallai dangosyddion perfformiad eraill gynnwys lleihad yn nifer y cwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol i'r awdurdod lleol, a lleihad yn nifer y cwynion niwsans am yfwyr yn hel o gwmpas siopau trwyddedig, er, ym mhob achos, bydd y dewis o fesurau perfformiad yn fater i'w benderfynu'n lleol ar sail amgylchiadau lleol.

Rhedeg y Cynllun

Cyn dechrau'r Cynllun, bydd y trefniadau canlynol yn eu lle:

Busnesau trwyddedig (gwerthu oddi ar y safle)

1. Yr holl stociau perthnasol wedi cael eu marcio gyda chod adnabod unigryw
2. Posteri wedi eu targedu at asiantau sy'n prynu alcohol, a bod angen profi oedran, yn cael eu dangos
3. Llyfrau Gwrthodiadau yn eu lle.

Partneriaid gorfodi

1. Cytuno ar brotocol gorfodi
2. Llythyrau safonol yn cael eu drafftio
3. Synwyryddion uwchfioled yn cael eu dosbarthu i bob swyddog
4. Codau eiddo unigryw'n cael eu dosbarthu i bob swyddog
5. Cytuno ar bolisi atafaelu.

Dylai'r cynllun ddechrau ar ddyddiad a gytunir arno gan bawb. O'r dyddiad hwnnw ymlaen, dylai swyddogion gorfodi o bob un o'r cyrff partner ryngwynebu â grwpiau o bobl ifanc sy'n hel mewn mannau cyhoeddus i ganfod a ydynt yn yfed alcohol. Mae gan rai ardaloedd Barthau Dim Alcohol lle mae hyn eisoes yn digwydd, ond lle nad yw'r ardal dan sylw'n Barth Dim Alcohol, bydd yn parhau i fod yn drosedd i rai o dan 18 oed yfed alcohol, a lle mae yfed yn digwydd, dylid atafaelu'r alcohol ac adnabod yr yfwr / yfwyr. Ar ôl nodi enw, cyfeiriad ac oed yr yfwr, dylid anfon pa bynnag un o'r llythyrau a ddangosir yn atodiadau 3 a 4 naill ai at rieni / gwarcheidwaid yr yfwr, neu at yr yfwr ei hun os yw rhwng 16 a 18 oed.

Dylid gallu adnabod y cod eiddo unigryw ar waelod y botel neu'r can ac ymweld â'r siop i drafod sut y daeth yr yfwr dan oed i fod ym meddiant alcohol a brynwyd o'r eiddo hwnnw. Os prynwyd yr alcohol gan yr yfwr dan oed ei hun (gellir cadarnhau hyn drwy ofyn i'r yfwr, a gwylio'r tâp teledu cylch cyfyng os oes un), dylid cymryd camau priodol drwy ddilyn y protocol gorfodi.

Os prynwyd yr alcohol gan drydydd parti'n gweithredu fel asiant i'r yfwr, neu os rhoddwyd yr alcohol i'r yfwr ran riant neu warcheidwad, dylid cymryd camau perthnasol drwy ddilyn y protocol gorfodi.

Dylid cadw'r alcohol sy'n cael ei atafaelu a'i gofnodi er mwyn mesur maint y broblem yfed dan oed yn yr ardal, ac er mwyn penderfynu pa fath o ddiodydd y dylid eu marcio'n lleol fel hoff ddiodydd yfwyr dan oed a hefyd i weithredu fel dangosydd perfformiad o lwyddiant y cynllun.

Lle mae'r siop sydd wedi'i hadnabod i fod wedi gwerthu'r alcohol yn awgrymu bod asiantau wedi prynu'r alcohol i rai dan oed er gwaetha'r ffaith bod posteri rhybuddio yn cael eu dangos a chyngor llafar wedi'i roi, dylai swyddogion geisio adnabod yr asiantau hynny drwy wylio tapiau teledu cylch cyfyng, os oes rhai, ac

os na fydd hyn yn ddigon o dystiolaeth i ddwyn achos, dylent ystyried gwylio'r siop yn ddirgel i geisio datrys y broblem, tra'n rhoi sylw priodol bob amser i ddarpariaethau Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000.

Yn ogystal â cheisio dal yfwyr dan oed yn yfed alcohol mewn mannau cyhoeddus, dylai swyddogion gorfodi hefyd ymweld yn ddirybudd â siopau sy'n rhan o'r cynllun i gadarnhau bod y diodydd alcohol perthnasol wedi cael eu marcio cyn eu dangos ar silffoedd y siop. Mae hyn yn sicrhau bod pob eiddo'n ffyddiog bod pawb yn cymryd rhan ar yr un sail, a hefyd yn rhoi cefnogaeth i'r siopau trwyddedig. Gellir hefyd darllen y llyfr gwrthodiadau ar yr un pryd i bwysleisio ymhellach pa mor bwysig yw gwrthod gwerthu alcohol i rai sy'n ymddangos i fod o dan oed ac na fedrant brofi eu hoed drwy ddangos prawf oedran priodol.

Cafodd y cynllun yn Strathclyde ei arwain gan yr heddlu a gwariwyd cryn adnoddau yn patrolio ardaloedd adnabyddus yn drwm, yn enwedig ar nosweithiau Gwener a Sadwrn, a hefyd yn cael cyswllt â siopau a deiliaid trwyddedau. Yn amlwg, mae adnoddau o'r fath yn ddrud, a bydd argaeledd cyllid yn penderfynu sut y gweithredir y cynllun. Awgrymir lle na ellir gwarantu rôl yr heddlu ar lefel mor uchel, y dylai swyddogion Trwyddedu, Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd gyflawni'r un rôl, gyda chymorth lle bo hynny'n bosibl gan Swyddogion Cymorth Cymunedol a staff eraill sydd ar gael. Lle mae adnoddau'n brin iawn, dylid ond targedu'r ardaloedd hynny lle mae'r broblem yn un amlwg i sicrhau ei bod yn derbyn sylw, ac ehangu'r cynllun wrth i fwy o adnoddau ddod ar gael.

Adnabod alcohol
Unwaith y bydd y cynllun yn gweithio a'r ffaith y gellir olrhain poteli a chaniau a farciwyd yn ôl i'w man gwerthu yn dod yn hysbys, mae'n bosibl y bydd yfwyr dan oed sydd ym meddiant poteli neu ganiau o alcohol yn tywallt eu cynnwys i boteli diodydd meddal neu gynhwysyddion eraill, ac yn taflu'r botel wreiddiol. Er y bydd hyn yn gwneud adnabod y siop a gyflenwodd yr alcohol yn amhosibl, gallai swyddogion ystyried defnyddio stribedi profi am alcohol i benderfynu a ydyw cynnwys cynhwysyddion heb eu marcio, neu boteli diodydd meddal, yn alcoholig ac, os ydynt, eu hatafaelu.

Gellir prynu Stribedi Profi am Alcohol mewn Poer, sy'n gweithio drwy drochi blaen y stribed profi yn yr hylif anhysbys, aros 2 funud, yna dadansoddi'r newid lliw a fydd yn dangos presenoldeb alcohol. Mae'r math yma o brofi'n cael ei argymell fel dull anymwthiol ac un lle nad oes angen caniatâd. Gellir dod o hyd i stribedi profi addas, fel a ddefnyddir gan staff Damweiniau ac Achosion Brys y GIG, yn www.valuebreathalysers.co.uk, ac mae mathau eraill o stribedi profi hefyd ar gael.

Gwerthuso'r Cynllun

Fel gydag unrhyw gynllun fel hwn, mae gwerthuso ei effaith yn hanfodol. Dylai'r partneriaid yn y prosiect benderfynu cyn iddo ddechrau pa fesurau gwerthuso sydd i'w defnyddio, ac awgrymir nifer yn y testun blaenorol. Gellir mesur nifer o'r mesurau gwerthuso a awgrymir yn hawdd – nifer y poteli / caniau sy'n cael eu hatafaelu, nifer yr yfwyr dan oed sy'n cael eu hadnabod, nifer yr asiantau sy'n cael eu hadnabod, a seilio unrhyw werthuso pellach ar nifer y camau gweithredu penodol a gymerwyd – Rhybuddion Syml a roddir ayb.

Mae gwerthuso'r agweddau mwy anuniongyrchol yn anoddach. Er ei bod yn gymharol hawdd mesur digwyddiadau o fân droseddu – graffiti ayb – mae eu habsenoldeb yn anoddach i'w fesur. Mae hefyd yn anodd mesur argraffiadau pobl ynghylch a ydyw ardal wedi gwella neu beidio, heblaw mewn ffordd gwbl oddrychol. Lle mai'r bwriad yw penderfynu a ydyw'r ardal wedi gwella o ganlyniad i'r cynllun, bydd angen gwneud rhywfaint o ymchwil wrthrychol i agweddau pobl sy'n byw neu'n ymweld â'r gymdogaeth cyn dechrau'r cynllun, a'i ailadrodd ar ôl i'r cynllun fod yn rhedeg am gyfnod. Gallai'r cwestiynau cychwynnol ofyn a ydynt yn teimlo'n ddiogel, yn teimlo'n ofnus neu a ydyw'n well ganddynt beidio ag ymweld â siop lle mae grwpiau o bobl ifanc yn sefyllian y tu allan ayb, ond bydd yr atebion a'u dilysrwydd yn dibynnu i raddau helaeth ar yr unigolion sy'n cael eu holi ac ar fedru cysylltu â'r unigolion hyn ar ôl i'r cynllun ddod i rym.

Ôl-ddilyn y Cynllun

I ddechrau, awgrymwyd y dylid ond rhedeg y cynllun mewn ardaloedd lle'r oedd problem gydag yfwyr dan oed – fel rheol o gwmpas siopau cornel lleol a mannau eraill lle gellir prynu alcohol i'w yfed oddi ar y safle. Ar ôl i'r cynllun ddechrau, mae risg y bydd yfwyr dan oed yn symud ymlaen ac yn chwilio am rywle arall i yfed, fel bod y problemau yfed dan oed a mân droseddu'n symud o ardal lle'r oedd problem i ddechrau i ardal 'newydd'. Dylid gofalu cynnwys ardaloedd o'r fath wrth batrolio'r ardal yn rheolaidd.

Mae tystiolaeth o'r Alban yn awgrymu ei bod yn hanfodol bwysig ôl-ddilyn pob agwedd ar y Cynllun er mwyn atgyfnerthu ei negeseuon. Mae hyn yn cynnwys swyddogion gorfodi'n ymweld â siopau trwyddedig sy'n rhan o'r Cynllun i sicrhau bod y poteli a'r caniau alcohol y maent wedi cytuno i'w marcio cyn eu gwerthu wedi eu marcio ar y silffoedd, a bod y polisi o wirio oed darpar brynwyr yn cael ei ddilyn, cael cyswllt â grwpiau o bobl ifanc sy'n hel mewn mannau cyhoeddus i sicrhau nad ydynt yn yfed ac, os ydynt, atafaelu'r diod os yw'n amlwg yn alcoholig a'i brofi am unrhyw sylwedd os oes lle i amau ei fod yn alcoholig, ynghyd ag ôl-ddilyn pob digwyddiad o brynu alcohol gan drydydd parti lle mae tystiolaeth bod hyn wedi digwydd.

Amrywiadau

Er bod y Cynllun hwn wedi cael ei dargedu at alcohol, gellir yn hawdd ei addasu i'w ddefnyddio gyda chynhyrchion eraill a reolir ar sail oedran, fel cyllyll, glud a thoddyddion eraill, neu gynhyrchion fel aerosolau, lle mae problem wedi cael ei hadnabod yn lleol.